# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 22 November 2023, at 6.30 pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Zoom

**Councillors Present** Cllrs Rob Marshall (Chair), Martin O'Neill, Tim Zhou and Angela O'Connor

**Co-opted members** Liz Fuller

**Officer Present:** Paul Beynon – RFO, Claire Anderson – Events Officer and Ian Hughes – Committee Support Officer (CSO)

CT2311-01 **Apologies for Absence**
Rhian Evans, Mike Parkin and Richard Jarvis

CT2311-02 **Declarations of Interest**
None

Due to the Events Officer, Claire Anderson needing to leave the meeting early, agenda items pertinent to her were brought forward by The Chair, Cllr Marshall.

CT2311-11 **MumblesFest 2024**
Claire Anderson outlined how she would be meeting RFO, Paul Beynon and Cllrs Marshall and O'Connor prior to December Meeting to provisionally obtain a date for MumblesFest 2024 and to consider suitable acts. In addition budgeting considerations to be agreed for 1.12.23.

**ACTION**: Claire Anderson to meet with RFO and Cllrs Marshall & O'Connor to agree date for MumblesFest 2023, discuss acts and budget prior to 1.12.24

CT2311-12 **A Christmas Cheese and Wine evening**

Claire Anderson stated that The Cheese and Wine Evening would now be taking place in the Spring of 2024 with a date to be fixed. The event would be of minimal cost, being ticketed.

**RECOMMENDED** that Full Council approve a Spring Cheese and Wine Event.

**ACTION**: Claire Anderson to research cost of purchasing wine, cheese and accompanying snacks. Cost of ticket prices to be agreed and liaise with RFO to identify an underspent budget (Newton Ward Family Fun Day) to fund decorations at the event.

CT2311-13

**Live entertainment and refreshment at the Coffee with Friends groups (Christmas)**

A general discussion took place concerning what the participants would like at future events including Christmas. Cllr Marshall has agreed to play the piano at the Christmas event and consideration to be given to having a school choir participate. Also a coach trip to a local attraction such as St Fagans was discussed although due to cost implications this may need to be at least partially supported by participants.

The idea of extending Coffee with Friends to include Tuesday as well as Thursday was discussed. Apart from the additional cost the implications of additional hours for both volunteers and staff were of concern.

**AGREED** that Cllr Marshall will play the piano at Christmas Event with consideration being given to approaching a local school choir to perform. Additional festive items such as mince pies to be provided through existing budgets.

**ACTION** Claire to research costing of a coach trip for participants

**ACTION** CSO to approach Barclays Bank at Ostreme and request their attendance at a Coffee and Friends to provide guidance on banking internet fraud.

**ACTION** Cllr Marshall and RFO to conduct a full costing of providing an additional day for Coffee with Friends.

CT2311-14

**Coffee with Friends Christmas Update**

This was largely covered in the previous agenda item CT2311-13

**AGREED** that Claire will arrange for sandwiches and other festive treats for participants in the Coffee with Friends out of existing budgets in the run-up to Christmas.

CT2311-15

**Future Events & AOB**
A discussion took place concerning the possibility of having stalls outside Ostreme in the lead up to Christmas. Claire raised concerns over the quality of footpaths surrounding Ostreme which may lead to a personal injury.

**AGREED** that no stalls are located outside Ostreme until such time as surrounding footpaths have been renovated.

**ACTION** Claire to arrange through Don the caretaker/handyman for white lines to be re-painted on the edges of steps outside Ostreme as a safety measure.

Claire Anderson left the meeting at 6.58pm

CT2311-03

**Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

**Resolved:** To approve the meeting minutes held on 25 October 2023 as an accurate record. Proposed by Cllr O'Neill and seconded by Cllr O'Connor.

CT2311-04

**Update on previous actions (25/10/2023)**
Outstanding actions discussed.

**RESOLVED** Outstanding actions updated and completed, details recorded in 'action' report by CSO.

CT2311-05

**Budget Monitoring Report to 31/10/2023**

Paul Beynon, the RFO outlined key points from the Budget Monitoring Report.

**RESOLVED** the Budget Monitoring Report was accepted.

**ACTION** CSO to ensure that Christmas Lighting is an agenda item for the January Committee Meeting.

CT2311-06

**Budget 2024/25, including presentation by RFO, Paul Beynon**

The Chair, Cllr Rob Marshall set out the importance of all members of the Culture Committee contributing to ideas for future events. The RFO then outlined key parts of the budget spreadsheet previously circulated to members. The RFO stressed the importance of providing Budget Proposal Forms to him in a timely manner to allow recommendations to be made at the next committee meeting prior to Full Council gathering on 12th December 2023.

**RESOLVED** the Budget Draft Spreadsheet was accepted.

**ACTION** Councillors to provided Budget Proposal Forms to RFO prior to 1.12.23

CT2311-07 **Budget Proposals**

Budget proposals were discussed in the previous agenda item CT2311-06

**AGREED** as set out at CT2311-06 that Councillors provide Budget Proposal Forms to RFO prior to 1.12.23.

CT2311-08 **Welsh Event for 1st March 2024 Update**

The Chair, Cllr Rob Marshall confirmed that the Ostreme Hall had been booked for 1st of March 2023. Cllr Evans is co-ordinating entertainment and refreshment.

**ACTION** Cllr Evans to be provided with suggestions prior to a Budget Proposal Form being submitted for the event.

CT2311-15 **Future Events & AOB**

In addition to those events already outlined two further events were mooted. Firstly, a Mumbles Arts Festival was suggested by Cllr Zhou. All members of the committee believed this to be an excellent idea utilising the many artistic talents of the surrounding area and including all aspects of art including photography.

Secondly, Cllr O'Connor suggested highlighting next year's Small Business Week (28th April to 4th May 2024) promoting local businesses from Mumbles and the surrounding area. Again, this was warmly received by committee members as a good idea.

**ACTION**: Cllr Zhou explore the options of hosting an Arts Festival with a view to putting together a Budget Proposal Form.

**ACTION**: Cllr O'Connor to explore opportunities for incorporating National Small Business Week within the area of MCC.

**The meeting ended at 7.50pm.**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# Dydd Mercher 22 Tachwedd 2023 am 6.30pm
# Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thros Zoom

**Cynghorwyr yn bresennol** Y Cynghorwyr Rob Marshall (Cadeirydd), Martin O'Neill, Tim Zhou ac Angela O'Connor

**Aelodau cyfetholedig** Liz Fuller

**Swyddogion yn bresennol**:Paul Beynon – y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Claire Anderson – Swyddog Digwyddiadau ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2311-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Rhian Evans, Mike Parkin a Richard Jarvis

CT2311-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2311-11 Oherwydd bod angen i'r Swyddog Digwyddiadau, Claire Anderson, adael y cyfarfod yn gynnar, daethpwyd ag eitemau ar yr agenda a oedd yn berthnasol iddi hi ymlaen gan y Cadeirydd.

**Gŵyl y Mwmbwls 2024**

Amlinellodd Claire Anderson sut y byddai'n cyfarfod â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, a'r Cynghorydd Marshall a'r Cynghorydd O'Connor cyn cyfarfod mis Rhagfyr i gael dyddiad dros dro ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2024 ac i ystyried diddanwyr addas. Yn ogystal, ystyriaethau i'w cytuno ar gyfer 1.12.23.

**CAM GWEITHREDU**: Claire Anderson i gwrdd â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r
CT2311-12 Cynghorwyr Marshall ac O'Connor i gytuno ar ddyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls
2024 a thrafod diddanwyr a chyllideb cyn 1.12.24.

**Noson Caws a Gwin Nadolig**
Dywedodd Claire Anderson y byddai'r Noson Caws a Gwin bellach yn cael ei chynnal yng ngwanwyn 2024 gyda dyddiad i'w bennu. Ychydig iawn o gost fyddai i'r digwyddiad, gan y byddai angen tocyn i'w fynychu.

**ARGYMHELLWYD** bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Digwyddiad Caws a Gwin yn y gwanwyn.

**CAM GWEITHREDU**: Claire Anderson i ymchwilio i gost prynu gwin, caws a
byrbrydau cysylltiedig. Cost prisiau tocynnau i'w cytuno a chysylltu â'r Swyddog
CT2311-13 Ariannol Cyfrifol i ganfod cyllideb sydd wedi'i thanwario (Diwrnod Hwyl i'r Teulu
Ward Newton) i ariannu addurniadau yn y digwyddiad.

**Adloniant byw a lluniaeth yn y grwpiau Coffi gyda Ffrindiau (Nadolig)**

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch yr hyn y byddai'r cyfranogwyr yn ei hoffi mewn digwyddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys y Nadolig. Mae'r Cynghorydd Marshall wedi cytuno i ganu'r piano yn y digwyddiad Nadolig ac ystyrir cael côr ysgol i gymryd rhan. Hefyd trafodwyd taith fws i atyniad lleol fel Sain Ffagan, ond oherwydd goblygiadau cost efallai y bydd angen i gyfranogwyr gefnogi hyn yn rhannol o leiaf.
Trafodwyd y syniad o ymestyn Coffi gyda Ffrindiau i gynnwys dydd Mawrth yn ogystal â dydd Iau. Ar wahân i'r gost ychwanegol, roedd goblygiadau oriau ychwanegol i wirfoddolwyr a staff yn peri pryder.

**CYTUNWYD** y bydd y Cynghorydd Marshall yn canu'r piano adeg y Nadolig, a rhoddir ystyriaeth i fynd at gôr ysgol leol i berfformio. Eitemau Nadoligaidd ychwanegol fel mins peis i'w darparu drwy'r cyllidebau presennol.

**CAM GWEITHREDU** Claire i ymchwilio i gostau taith fws i gyfranogwyr.

**CAM GWEITHREDU** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i gysylltu â Banc Barclays yn Ostreme a gofyn iddo fynychu digwyddiad Coffi gyda Ffrindiau i roi arweiniad ar dwyll bancio ar y rhyngrwyd.

**CAM GWEITHREDU** Y Cynghorydd Marshall a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i gynnal
CT2311-14 cost lawn o ddarparu diwrnod ychwanegol ar gyfer Coffi gyda Ffrindiau.

**Diweddariad Nadolig Coffi gyda Ffrindiau**

Ymdriniwyd â hyn i raddau helaeth yn yr eitem flaenorol ar yr agenda, CT2311-13.

**CYTUNWYD** y byddai Claire yn trefnu brechdanau a danteithion Nadoligaidd eraill allan o'r cyllidebau presennol yn y cyfnod cyn y Nadolig.

**CAM GWEITHREDU** Claire i drefnu bwyd ychwanegol a danteithion Nadoligaidd i gyfranogwyr yn y digwyddiadau Coffi gyda Ffrindiau cyn y Nadolig.

CT2311-15 **Digwyddiadau i ddod ac unrhyw fater arall**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o gael stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme yn y cyfnod cyn y Nadolig. Mynegodd Claire bryderon ynghylch ansawdd y llwybrau troed o amgylch Canolfan Ostreme, a allai arwain at anaf personol.

**CYTUNWYD** i beidio lleoli unrhyw stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme nes bod y llwybrau troed cyfagos wedi'u hadnewyddu.

**CAM GWEITHREDU** Claire i drefnu gofalwr/tasgmon trwy Dom a fydd yn ailbaentio llinellau gwyn ar ymylon grisiau y tu allan i Ganolfan Ostreme fel mesur diogelwch.

Gadawodd Claire Anderson y cyfarfod am 6.58pm.

CT2311-03 **Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Pwyllgor**

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 fel cofnod cywir.Cynigiwyd gan y Cynghorydd O'Neill ac eiliwyd gan y Cynghorydd O'Connor.

CT2311-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu blaenorol (25/10/2023)**
Trafodwyd camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi eu diweddaru a'u cwblhau, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu'.

CT2311-05 **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/09/2023**

CT2310-04

**Diweddariad ar gamau gweithredu blaenorol (27 Medi 2023)**

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi eu diweddaru a'u cwblhau, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu'. Ymunodd y Cynghorydd O'Connor â'r cyfarfod am 6.43pm wrth i'r camau gweithredu heb eu cwblhau gael eu trafod.

CT2310-05

**Diweddariad ar yr Aelod Cyfetholedig**
Cymeradwywyd aelodaeth Liz Fuller fel aelod cyfetholedig yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn. Eglurodd y Cynghorydd Marshall fod Liz Fuller, yn anffodus, yn annhebygol o fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn am ei bod yn ymweld â pherthynas yn yr ysbyty.

CT2310-06

**Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31 Awst 2023**
Amlinellodd y Clerc bwyntiau allweddol Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

**PENDERFYNWYD** derbyn Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

CT2310-07

**Cyllideb 2024/25**
Trafodaeth ynghylch sut y gallai'r pwyllgor ddefnyddio ei gyllideb orau yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys prosiectau a amlinellir isod mewn eitemau agenda ar wahân.

CT2310-08

**CAM GWEITHREDU**: Pob cynghorydd i nodi meysydd/cyfleoedd lle na wariwyd ac i gyflwyno unrhyw gynigion yng nghyfarfod mis Tachwedd a chyflwyno Ffurflenni Cynnig Cyllideb i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Tachwedd 2023.

**Cynigion Cyllideb**

CT2310-09

Unwaith eto, bu llawer o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar brosiectau yr ymdrinnir â hwy isod. Yn ogystal, cytunwyd i archwilio opsiynau i'r Mwmbwls gael goleuadau ac addurniadau Nadolig newydd ar gyfer 2024.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd O'Connor ynghyd â'r Clerc i archwilio'r gost a'r opsiynau ar gyfer goleuadau/addurniadau Nadolig 2024.

CT2310-10

**Cyflwyniad gan Paul Relf (Cyllid a Grantiau Cyngor Dinas a Sir Abertawe)**
Nid yw Paul Relf yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor ar nos Fercher oherwydd ymrwymiad parhaus. Fodd bynnag, mae wedi cytuno i ddarparu pecyn gwybodaeth i Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Mae'r Clerc a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau wedi anfon e-bost at Paul yn dilyn y cynnig hwn, ac mae'r Cynghorydd Marshall i fod i gwrdd â Paul o fewn y saith diwrnod nesaf a bydd yn gwneud cais pellach.

CT2310-11

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i wneud cais pellach i Paul Relf mewn perthynas â'r pecyn gwybodaeth y cynigiodd ei ddarparu i Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

CT2310-12

**Diweddariad ar Ddigwyddiad Cymreig**
Trafodwyd y cyfleoedd ar gyfer Digwyddiad Cymreig yn ystod y drafodaeth ar y camau gweithredu heb eu cwblhau CT2310-04, lle cytunwyd i gael eitem benodol ar gynnal digwyddiad ar 1 Mawrth 2024 ar agenda cyfarfod mis Tachwedd.

**PENDERFYNWYD** y byddai eitem agenda ar wahân yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd i drafod dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

CT2310-13

**Cynnig Goleuadau'r Clogwyni**
Amlinellodd y Cynghorydd Marshall fod y dyfynbrisiau ar gyfer goleuo'r clogwyni wedi dyddio a bod Claire yn ymchwilio i gael dyfynbrisiau newydd.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch dyfynbrisiau addas.

CT2310-14

**Cyfarpar Recordio a Ffrydio**
Trafododd y Cynghorydd Marshall y defnydd o dechnoleg iPhone i gofnodi a lledaenu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol ar y cyfryngau cymdeithasol a mannau eraill. Er nad yw'r cyfarpar hwn sy'n hawdd ei ddefnyddio o reidrwydd yr opsiwn rhataf, byddai yn caniatáu defnydd helaeth gan yr holl staff a chynghorwyr.

CT2310-15

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r gost a'r opsiynau o ddefnyddio unedau iPhone ar gyfer cofnodi digwyddiadau o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Gŵyl y Mwmbwls 2024**
Amlinellodd y Cynghorydd Marshall y byddai, ynghyd â'r Cynghorwyr O'Neill ac O'Connor a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, yn gweithio ar gynnig cadarn ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

CT2310-16

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall ar y cyd ag eraill i baratoi cynigion manwl ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2024. Eitem agenda ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

**Noson Caws a Gwin Nadolig**
Cafwyd trafodaeth ar gynnal digwyddiad caws a gwin yng Nghanolfan Ostreme rywbryd yn 2024. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau fel blasu gwin a chwis. Byddai mynediad trwy docynnau a fyddai'n talu am gost y digwyddiad. Busnesau lleol i'w defnyddio, e.e. Cheers ar gyfer y gwin, ac Olive & Oils ar gyfer y caws a'r cracers.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch amser addas ar gyfer y digwyddiad a chael dyfynbrisiau ar gynnyrch perthnasol.

CT2310-17

**Marchnadoedd Nadolig / stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme ar ddydd Sadwrn**
Agorodd y Cynghorydd Marshall y drafodaeth ar y cyfle i gael stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme ar ddydd Sadwrn yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig ac awgrymodd ddigwyddiad â thema, gyda chelf a chrefft, er enghraifft, yn cael eu gwerthu un wythnos a chynnyrch a dyfir yn lleol ar gael yr wythnos wedyn. Roedd y cynghorwyr yn awyddus i roi cyfleoedd i fusnesau lleol a hyrwyddo'r Mwmbwls yn y cyfnod cyn y Nadolig. Roedd y cynghorwyr hefyd yn bryderus y gallai stondinau o'r fath effeithio'n negyddol ar fusnesau lleol ac y gellid effeithio ar ddigwyddiadau eraill o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Trafodwyd hefyd yr angen i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu trwyddedau masnachu, ynghyd â'r cynnig y gallai'r digwyddiad fod yn fwy priodol ar gyfer 2024 er mwyn caniatáu i drefniadau gael eu gwneud i drefnu stondinau addas.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o gynnal stondinau y tu allan i Neuadd Ostreme y Nadolig hwn ac yn 2024.

**Cinio Nadolig yn Neuadd Newton ar ddechrau mis Rhagfyr**
Amlinellodd y Cynghorydd Marshall fod £500 wedi'i glustnodi ar gyfer cinio Nadoligaidd i'r henoed, i'w gynnal yn Neuadd Newton. Roedd o'r farn y gellid

CT2310-18

cynyddu'n sylweddol y cyfraniad at y cinio trwy ddefnyddio arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant. Yn ogystal â chyllideb y pwyllgor, awgrymwyd y gellid trosglwyddo arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant ym meysydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r opsiynau o ddefnyddio arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol at ddiben gwella'r Cinio Nadolig yn Neuadd Newton. Yn ogystal, y Cynghorydd Marshall i anfon e-bost at y Cynghorydd Pamela Erasmus a'i dirprwy Sara Keeton gyda golwg ar geisio trosglwyddo arian tanwariant i'r un pwrpas.

**Adloniant byw a lluniaeth yn y grwpiau Coffi gyda Ffrindiau (Nadolig)**
Cafwyd trafodaeth ynghylch cydbwyso anghenion a dymuniadau'r cyfranogwyr sy'n mynychu Coffi gyda Ffrindiau yn rheolaidd. Yn ogystal, yr angen i ehangu cyfranogiad yn Coffi gyda Ffrindiau trwy gyfrwng dulliau heblaw'r cyfryngau cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD** ceisio barn y rhai sy'n mynychu Coffi gyda Ffrindiau ynglŷn â darparu adloniant yn y cyfnod cyn y Nadolig a'r angen i ganiatáu digon o amser i gyfranogwyr gymdeithasu o fewn eu grwpiau eu hunain. Ystyried ehangu 'aelodaeth/cyfranogiad' Coffi gyda Ffrindiau trwy hysbysebu yng nghylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorwyr Marshall ac O'Neill i ofyn am farn y cyfranogwyr yn y cyfarfodydd Coffi gyda Ffrindiau nesaf.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i ystyried hysbysebu Coffi gyda Ffrindiau naill ai drwy hysbyseb neu mewn hysbysiad ar wahân wedi'i amgáu yng nghylchlythyr nesaf Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Digwyddiadau yn y Dyfodol**
Yn ogystal â'r digwyddiadau hynny yr amlinellwyd eisoes, crybwyllwyd dau ddigwyddiad arall. Yn gyntaf, cystadleuaeth boules, o bosibl i gyd-fynd â digwyddiad gefeillio ac i gynnwys y digwyddiad hwnnw. Yn ail, digwyddiad canu dros y Nadolig gan ddod â nifer o gorau ynghyd. Trafodwyd a ddylid cynnal y digwyddiad dan do lle gellid caniatáu mynediad drwy bris tocyn er mwyn codi arian i elusennau lleol.

**PENDERFYNWYD** gwneud ymchwil bellach i'r posibilrwydd o gynnal y ddau ddigwyddiad.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r opsiynau ynglŷn â chystadleuaeth boules.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorwyr Marshall ac O'Connor i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cynnal Cyngerdd Nadolig o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.41pm.**